**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ddwyn hyn i'n sylw. Cydnabyddwn nad yw'r ddau brif nodyn yn dilyn y geiriad safonol a byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r ddau yn gwneud natur yr offeryn a pha un o weithdrefnau Senedd Cymru sydd i'w dilyn yn glir, a chânt eu dileu cyn i'r offeryn gael ei wneud.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Rydym yn cytuno y byddai'r ddarpariaeth, yn ddelfrydol, wedi nodi'n fanylach ble y dylid mewnosod y testun. Fodd bynnag, mae "yn y lle priodol", ynghyd â theitl y corff sydd i'w fewnosod (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), yn ei gwneud yn glir y dylid ei osod o dan yr is-bennawd "Other educational bodies". Roedd y rhestr wreiddiol yn yr is-bennawd hwnnw yn nhrefn yr wyddor, ond rydym yn cydnabod nad yw diwygiadau blaenorol i'r rhestr honno wedi cael eu gwneud yn nhrefn yr wyddor. Fodd bynnag, mae'n glir bod y term i'w fewnosod yn Atodlen 19 ac o fewn yr is-bennawd "Other educational bodies"; ni fydd safle'r term ar ddechrau neu ar ddiwedd y rhestr yn yr is-bennawd hwnnw yn cael unrhyw effaith ar ystyr cyfreithiol y ddarpariaeth ac, ar y sail honno, nid ydym yn cynnig diwygio'r ddarpariaeth hon.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** O gofio mai'r unig ddiwygiadau y mae'r OS hwn yn eu gwneud yw'r rheini i Ran 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid ydym o'r farn bod unrhyw berygl i berson sy'n darllen rheoliad 3 gael ei gamarwain (nodwn, gyda llaw, nad oes Atodlen 19 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022). Fodd bynnag, rydym yn cytuno y byddai cynnwys cyfeiriad penodol at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud y ddarpariaeth yn fwy eglur, a byddem yn cynnig gwneud y diwygiad hwnnw cyn i'r offeryn gael ei wneud.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:** Cafodd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei sefydlu fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 fel y gellid penodi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Ar yr adeg honno, nid oedd y Prif Swyddog Gweithredol na'r lleiafswm o aelodau cyffredin wedi cael eu penodi (fel sy'n ofynnol gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022). Gan nad oedd y Comisiwn wedi'i gyfansoddi'n llawn ar 15 Rhagfyr 2022, nid oedd yn gallu arfer unrhyw swyddogaethau.

Bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu'n llawn ar 4 Medi 2023 pan fo'r Prif Swyddog Gweithredol ac o leiaf bedwar aelod cyffredin yn dechrau yn eu swyddi; dyma pryd y bydd y Comisiwn, yn ddarostyngedig i wneud ail orchymyn cychwyn dros yr haf, yn gallu arfer swyddogaethau penodol.

Daw’r Rheoliadau hyn i rym ym mis Medi 2023, yn hytrach na mis Ebrill 2024, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o’r pwynt y gall arfer unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5:** Rydym yn ddiolchgar i’r Pwyllgor am ddwyn hyn i’n sylw. Caiff y Memorandwm Esboniadol ei dynnu’n ôl a’i ailosod gyda’r diwygiadau angenrheidiol.